Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Y Gamfa Wen**
**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**
**Caerfyrddin**
**SA31 3EP**

**Dyddiad yr arolygiad: 20 Hydref 2011**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae’r Gamfa Wen yn feithrinfa a adeiladwyd i’r pwrpas yn 2005 ar dir Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Saif y brifysgol ar gyrion tref Caerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin. Cofrestrwyd y feithrinfa i ofalu am bum deg dau o blant ar unrhyw un adeg: deunaw hyd at ddwy oed; deunaw rhwng dwy a thair oed ac un ar bymtheg rhwng tair a phump oed. Adeg yr arolwg roedd un deg chwech o blant yn y grŵp Cyfnod Sylfaen (o ddwy a hanner i bump oed) ac roedd tri ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.  Mae’r feithrinfa yn cyfarfod pum bore’r wythnos rhwng 9.30 yb a 12.00 yh am dri deg wyth wythnos y flwyddyn.

Cynllun agored sydd i’r feithrinfa ac mae wedi’i rhannu’n dair adran. Gelwir y rhain: Y Babanod (hyd at ddeunaw mis oed); Y Crwydriaid (o ddeunaw mis hyd at dri deg mis oed) a grŵp Y Cyfnod Sylfaen (o ddwy a hanner hyd at bump oed). Yn gyfan gwbl, mae saith deg tri o blant wedi’u cofrestru yn y feithrinfa, gan gynnwys y rhai hynny sydd yn bresennol rhan o’r amser. Daw 40% o’r plant yma o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn iaith yr aelwyd gyda’r ddau riant yn siarad Cymraeg. Daw 40% o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg ac mae 20% o’r plant yn dod o gartrefi di-gymraeg.

Ysgol Y Dderwen yng Nghaerfyrddin yw’r ysgol y mae’r feithrinfa yn bwydo’n bennaf. Mae cysylltiadau agos rhwng ymarferwyr y feithrinfa a staff yr ysgol.

Mae cysylltiadau cadarn rhwng y feithrinfa a’r Ysgol Plentyndod Cynnar a’r brifysgol ei hun. Daw aelodau o’r Ysgol Plentyndod Cynnar i ymweld â’r feithrinfa yn rheolaidd i ddiweddaru’r staff ynghylch unrhyw ddatblygiadau ym maes y blynyddoedd cynnar ac i rannu syniadau. Y person cofrestredig yw Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y brifysgol ac y mae hi’n ymweld â’r feithrinfa yn rheolaidd i gefnogi’r ymarferwyr ynglŷn ag unrhyw faterion sy’n codi.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw blentyn wedi nodi ag anghenion addysg ychwanegol (AAY).

Cafodd y feithrinfa ei harolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ionawr 2011. Dyma’i harolwg cyntaf gan Estyn.

Y mae’r lleoliad wedi’i gofrestru fel meithrinfa breifat o dan Ddeddf Plant 1989. Mae gan y lleoliad bwyllgor rheoli. Cyflogir pedair o ymarferwyr ar gyfer grŵp y Cyfnod Sylfaen a chanddynt i gyd gymwysterau addysg blynyddoedd cynnar. Mae gan yr arweinyddes a’r dirprwy arweinyddes radd mewn addysg blynyddoedd cynnar, mae un o’r ymarferwyr yn meddu ar gymhwyster NVQ lefel 4 mewn gofal plant ac un arall ar NVQ lefel 3. Cyflogir cyfanswm o un ar bymtheg o ymarferwyr yn y feithrinfa ar gyfer yr holl blant a chanddynt i gyd gymwysterau priodol.

Daw’r plant sy’n mynychu'r feithrinfa o dref Caerfyrddin a'r ardal o'i chwmpas. Cydnabyddir yr ardal fel un nad yw’n freintiedig nac anfreintiedig. Mae’r rhieni yn dewis y lleoliad er mwyn i’w plant dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae i’r feithrinfa fynediad diogel a chanddi adnoddau o ansawdd dda gan gynnwys ardal amgaëedig tu allan sydd wedi ei rhannu yn ardal ag arwyneb caled ac ardal o laswellt a choed ac mae yna ardd fechan hefyd. Mae’r ystafell cynllun agored yn ddigonol ar gyfer y nifer o blant a gofrestrwyd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y darparwr yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae'r ethos yn gynwysedig a theimla pob plentyn yn hapus ac yn ddiogel iawn;
- cyflawna'r plant yn dda yn ôl eu cyfnod datblygu;
- mae'r addysgu'n dda;
- mae'r asesu drwy arsylwi yn dda a chaiff ei ddefnyddio'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf, a
- mae'r staff yn gweithio fel tîm effeithiol.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r darparwyr yn dda am y rhesymau canlynol:**

- mae diwylliant o adlewyrchu proffesiynol yn datblygu sydd wedi'i seilio ar hunan-arfarniad;
- mae'r arweinyddiaeth yn dda, ac

mae ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

| |
|---|
| |

## Argymhellion

Er mwyn gwella ar y ddarpariaeth fe fydd angen i'r darparwyr:

A1 Sicrhau nad yw profiadau dysgu'r plant wedi eu gor-gyfeirio a bod y ddarpariaeth a'r trefniant o ddydd i ddydd yn fwy hyblyg.

A2 Integreiddio'n llawn yr ardaloedd tu allan a thu mewn a gwireddu potensial y tir glas wrth gynllunio profiadau i'r plant.

A3 Adnabod trwy'r broses hunan-arfarnu y meysydd i'w gwella a'u blaenoriaethu; pennu targedau ar gyfer mynd i'r afael â'r rhain a meini prawf penodol ar gyfer mesur llwyddiant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y feithrinfa'n cynhyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y caiff yr argymhellion yma eu cyflawni.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Barn**

Nis adroddir ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles am nad oes digon o blant o dair blwydd oed i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynllunio ar ôl iddynt drafod darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos flaenorol. Trafodant gyraeddiadau ac anghenion pob plentyn unigol a bwyda'r wybodaeth a gasglwyd y cylch nesaf o gynllunio; y mae hon yn nodwedd dda. Ymateba'r cynllunio yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant ar y cyfan a chynllunnir ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Er bod y cynllunio'n effeithiol ar y cyfan, mae'n nodi deilliannau penodol i'r tasgau. O ganlyniad, nid yw bob amser yn ddigon hyblyg i ganiatáu newid cyfeiriad pan na fydd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn cynnal diddordeb y plant neu yn eu herio'n ddigonol. Adeilada'r oedolion ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda.

Mae'r profiad dysgu'n helpu'r plant i ddechrau datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig a hyderus ar y cyfan a chânt gyfleoedd da i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol. Maent yn dechrau datblygu medrau meddwl wrth gael cyfleoedd i archwilio eu hamgylchedd ac wrth chwarae rôl. Mwynhânt gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas trwy ymweld â choedlan gyfagos a thrwy weithgareddau fel plannu a thyfu blodau a llysiau. Hyrwyddir eu gwybodaeth o ddatblygiad cynaliadwy trwy ail-gylchu papur a bwyd gwastraff i wneud cwrtaeth.

Trwy ymwneud â'u profiadau dysgu a chydweithio o fewn cymuned ddysgu agos y feithrinfa, datblyga'r plant berthynas dda gydag eraill a dangosant barch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill.

Caiff y plant eu hannog gan yr ymarferwyr i siarad Cymraeg bob amser ac i ddatblygu eu hiaith trwy wrando ar stori, adrodd rhigymau a chanu caneuon. Dathlant ddiwylliant Cymreig mewn ystod o ffyrdd gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, dydd Santes Dwynwen a thrwy ddawnsio gwerin.

Mwynhânt ymweliadau i leoedd cyffrous sy'n gysylltiedig â thema'r tymor, er enghraifft, i weld cychod ar lan y môr.

## Addysgu: Da

Derbynia'r ymarferwyr hyfforddiant cyson ar ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn y maes a deallant yn dda ofynion Y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Rheolir ymddygiad mewn ffordd sensitif a chadarnhaol ac o ganlyniad fe ddysga'r plant dueddfrydau gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch, sensitifrwydd a charedigrwydd tuag at eraill.

Ar y cyfan mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gwestiynau i ymestyn dysgu'r plant ond nid yw'r cwestiynu'n ddigon heriol bob amser. Mae'r dysgu gorau yn digwydd pan fydd y plant yn dewis beth y maent am wneud ac yn cael digon o amser i archwilio a mwynhau eu profiadau. Ar rai achlysuron mae'r staff yn ymyrryd yn effeithiol yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae er mwyn ymestyn eu dysgu ond weithiau nodir deilliannau sy'n rhy benodol i'r tasgau. Mae'r addysgu yn bodloni anghenion unigol y plant yn dda.

Mae'r trefniant yn hyblyg weithiau ac yn rhoi cyfleoedd da i'r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a hyrwydda'n dda eu hannibyniaeth. Fodd bynnag, caiff y trefniant ei orgyfeirio ar adegau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda ac mae ganddynt berthynas glos gyda phob un ohonynt. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol ac yn trafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn dda i fwydo'r cylch nesaf o gynllunio. Cedwir cofnodion parhaus o gynnydd y plant a chynhwysa'r rhain wybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sydd yn rhoi darlun clir o gyflawniad pob plentyn. Mesurant gynnydd y plant yn gyson ymhob maes dysgu a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant. Derbynia'r rhieni adroddiadau cynhwysfawr amgyflawniadau a chynnydd eu plant pan fyddant yn gadael y feithrinfa i fynd i'r ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch deuluol yn y lleoliad lle teimla'r plant yn gyfforddus, yn ddiogel ac yn hapus iawn. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi a dangosir parch tuag atynt.

Datblygant yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini trwy ddilyn cynllun cyn-ysgol iach sydd yn hybu datblygiad maeth, rheolaeth, hylendid ac iechyd y geg.

Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu'n dda. Dysgant am gredoau eraill, er enghraifft, trwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd a thrwy goginio bwyd Tsieineaidd gyda rhiant un o'r plant. Dywed y plant weddi cyn bwyta a daw caplan y brifysgol i siarad â nhw am wyliau Cristnogol adeg Diolchgarwch, y Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi. Datblygant synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas trwy ymweld â'r goedlan, arsylwi ar ddraenog yn yr ardd a thrwy dyfu llysiau yn yr ardal tu allan ac yna eu bwyta.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin y moesau hynny y credant eu bod yn angenrheidiol i ddatblygiad cyflawn y plentyn cyfrifol. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd  tegwch, gonestrwydd a gwirionedd ac maent yn gwybod yn dda beth yw'r gwahaniaeth rhwng da a drwg yng nghyd-destun eu bywydau ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu'n dda ac i ddatblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu yn eu cymuned fechan. Caiff y plant rai cyfleoedd i wneud penderfyniadau a mwynhânt oll eu profiadau yn y feithrinfa.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng y feithrinfa, yr ysgolion mae'n bwydo ac asiantaethau allanol yn dda. Sicrha'r berthynas glos rhwng yr ysgolion a'r feithrinfa drosglwyddiad llwyddiannus i'r plant wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin.

Mae'r berthynas rhwng y rhieni a'r feithrinfa yn dda. Dywedodd detholiad o rieni eu bod yn fodlon iawn ar bob agwedd o ddarpariaeth y lleoliad a bod yr ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda. Teimlant fod eu plant yn derbyn gofal da iawn a'u bod hwythau'n gallu mynd at yr arweinyddes ynglŷn ag unrhyw fater.  Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu plant a gwyddant yn dda'r gweithdrefnau i'w dilyn. Mae holl weithdrefnau angenrheidiol yn weithredol ac adlewyrchant Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Nid oes yn y feithrinfa blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar hyn o bryd a chaiff pob plentyn fynediad i bob maes dysgu a'r holl brofiadau dysgu a ddarperir.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

charedigrwydd tuag at bob un a chaiff pob plentyn ei werthfawrogi. Adnabydda'r ymarferwyr y plant a'u hanghenion a'u diddordebau yn dda ac ymatebant i'r rhain gan ddefnyddio eu gwybodaeth drylwyr o gefndiroedd y plant. Caiff pob plentyn fynediad cyfartal i bob agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad i'r hoffter a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac ymddygiad da.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cadarnhaol iawn i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol. Cofrestrir y cylch gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac nid oedd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella yn yr adroddiad diwethaf. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn dda a medda'r staff ar gymwysterau da. Mae'r adeilad wedi'i gynllunio yn unig swydd ar gyfer ei bwrpas ac mae ganddo gyfleusterau da iawn. Mae'r ystafell yn ddigonol gogyfer y nifer o blant sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd. Cânt ddigon o le i chwarae rôl, paentio, edrych ar lyfrau ac mae pob un yn mwynhau profiadau dysgu tu allan. Dangosa'r plant i gyd gonsyrn a charedigrwydd tuag at eu ffrindiau, yr oedolion ac ymwelwyr.

Derbynia'r plant ystod o brofiadau sydd yn hyrwyddo'u sgiliau creadigol, corfforol, mathemategol ac ieithyddol. Mae defnydd y lleoliad o adnoddau'r brifysgol yn dda ac elwa'r plant o'u hymweliadau â'r llyfrgell.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinyddes yn rhoi cyfarwyddyd clir i'r lleoliad ac i'r broses o'i wella. Cydweithia hi a'i dirprwy yn dda a rhannant egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi eu seilio ar ddatblygiad plentyn. Llwydda'r arweinyddion greu ethos cadarnhaol a hapus iawn.

Cyflawna'r ddwy eu cyfrifoldebau'n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant a chyfrannant at gynllunio strategol y feithrinfa. Rhanna'r arweinyddes a'i dirprwy'r gwerthoedd y maent am eu hyrwyddo yng nghyfarfodydd staff. Gosodant ddisgwyliadau uchel a thargedau sydd yn sicrhau darpariaeth dda ac ânt i'r afael â chyraeddiadau isel yn effeithiol.

Sicrha'r arweinyddes fod yr ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant cyson gan yr Awdurdod Lleol, Mudiad Ysgolion Meithrin ac Ysgol Plentyndod Cynnar y brifysgol er mwyn gwella'u gwybodaeth o ddatblygiadau cyfoes yn y maes. Gwerthusa'r arweinyddes berfformiad yr ymarferwyr yn rheolaidd. Mae cysylltiadau da rhwng yr arweinyddes a'r rhieni.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol iawn o beth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac yn gefnogol iawn ohono. Deallant eu rolau'n dda a'u cyflawni'n gydwybodol. Gwyddant am berfformiad y cylch a cheir trafodaethau rheolaidd rhwng y person cofrestredig a'r arweinyddes. Defnyddia'r pwyllgor yr holl i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r feithrinfa a chyflawna'i dyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r arweinyddes yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r Awdurdod Lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o adlewyrchu proffesiynol yn datblygu yn y lleoliad sydd wedi'i seilio ar hunan-arfarniad.

Mae'r arweinyddes a'i dirprwy yn defnyddio hunan arfarnu i nodi cryfderau'r feithrinfa yn dda ond ni nodir y meysydd i'w gwella mor effeithiol. Maent yn ymgynghori gyda'r staff, y rhieni, gofalwyr, y pwyllgor rheoli a'r plant i fwydo'r hunan arfarnu; mae hon yn nodwedd dda. Defnyddiant y wybodaeth a dderbynnir oddi wrth holiaduron i rieni i gywain barnau ac adnabod meysydd y maent am eu datblygu.

Yn sgîl y broses o hunan arfarnu cynhyrchir cynllun gwella lleoliad sydd yn cynnwys targedau er mwyn codi safonau trwy wella’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw pob un o’r rhain yn deillio o’r broses o hunan arfarnu ac ni chânt eu blaenoriaethu.

Mae system effeithiol o werthuso perfformiad yn ei le a chaiff yr ymarferwyr gyfleoedd da i adlewyrchu ar eu gwaith a nodi’r meysydd y maent am eu datblygu trwy hyfforddiant er mwyn gwella’r ddarpariaeth.

Mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda ar y cyfan.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan y feithrinfa bartneriaeth gref gyda’r rhieni a’r gofalwyr. Rhydd y feithrinfa wybodaeth gyson iddynt trwy lythyron ac y mae’r prosiect ‘bocsys cartref’ yn rhoi cyfleoedd da iddynt wybod am yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu.

Gweithia’r arweinyddes yn effeithiol gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol, swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin ac aelodau Ysgol Plentyndod Cynnar y brifysgol sydd yn monitro’r ddarpariaeth ac yn gwneud mewnbwn cyson i’r hyfforddiant. Maent i gyd yn gefnogol iawn o’r cylch.

Gweithia'r staff yn agos gyda'r rhanddeiliaid ac y maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau gan y rhieni a’r gwarchodwyr.

Mae’r partneriaethau rhwng y feithrinfa a’r ysgolion a fwydir yn dda ac yn enwedig gyda’r ysgol y bwydir yn bennaf. Cynhelir cyfarfodydd pontio bob tymor i drafod y plant fydd yn symud i’r ysgol y tymor dilynol er mwyn hwyluso’r trosglwyddant iddynt.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Lleolir ymarferwyr yn dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’u harbenigedd a  sicrhau’r ddarpariaeth orau. Defnyddiant yr adnoddau y tu fewn yn effeithiol er mwyn darparu profiadau diddorol i’r plant. Mesurant effaith yr adnoddau ar y dysgu a’r addysgu a chynlluniant ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni wneir y defnydd gorau o’r ardal tu allan bob amser ac o ganlyniad, collir cyfleodd pwysig i symbylu’r plant ac i gyfoethogi eu profiadau dysgu ymhob maes.

Gwna’r arweinwyr ddefnydd da o adnoddau’r lleoliad ar y cyfan. Rheolir y cyllid yn effeithiol er mwyn cynnig darpariaeth dda. Mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Roedd sylwadau'r rhieni ag ymatebodd i'r holiaduron yn gadarnhaol iawn.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Roedd pob plentyn yn gyfforddus wrth siarad gydag ymwelydd a dywedant oll eu bônt yn hapus iawn yn y cylch. Soniant am eu ffrindiau a dywedant eu bod yn gwybod beth i'w wneud petaent yn anhapus neu yn gofidio am rywbeth.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu / yr arolygydd cofnodol – dileer fel y bo'n briodol**

| | |
|---|---|
| | Branwen Llewelyn Jones |
| | |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)